

Y ddawn sy'n ateb y diben

“Y mae amrywiaeth doniau, ond yr un Ysbryd sy'n eu rhoi.” (adn. 4)

Beth am ddarllen 1 Corinthiaid 12:1–11 ac yna myfyrio

Yn fy marn i, mae'n debygol y gall y diwygiad nesaf fydd yn effeithio ar ein heglwysi ddod o gyfeiriad pobl leyg. Mae'n anodd i ni sydd yn “weinidogion llawn amser” weld sut y medrwn ennill y byd. Does dim digon ohonom. Camgymeriad yw'r agwedd meddwl oedd yn fy nodweddu pan oeddwn yn ifanc. Roeddwn yn meddwl am yr Eglwys yn y termau hyn yn fras: “Fi yw'r gweinidog, wedi fy ngalw gan Dduw, wedi fy ordeinio gan ddynion i waith y weinidogaeth. Eich gwaith chi yw sicrhau nad oes rhyw feichiau dianghenraid yn fy llethu, er mwyn i mi gael mynd yn fy mlaen â gwaith pregethu'r Efengyl.” Meddyliwch am yr hyfdra! Roeddwn yn arfer dweud wrth fy nghynulleidfya: “Dewch â'ch ffrindiau i'm clywed i'n pregethu, ac yna byddaf yn siŵr o'u harwain at Iesu Grist.” Ni wawriodd arnaf y buasai wedi bod yn well i hyfforddi'r bobl yma i arwain eu ffrindiau eu hunain at yr Arglwydd Iesu. Diolch bod Duw wedi goleuo fy meddwl a'm calon cyn iddi fynd yn rhy hwyr. A diolch am y gras yr wyf wedi ei gael ers hynny i fedru annog eraill i wneud gwaith gweinidogaeth. Deuthum yn hyfforddwr, a dyma'r gwaith yr wyf wedi ceisio ei gyflawni ers hynny.

Un o'r offerynnau mwyaf defnyddiol yr wyf wedi ei ddatblygu yw siart syml sydd yn cynorthwyo'r clerigwyr a lleygwyr i adnabod eu doniau, ac o ganlyniad i fedru cyflawni eu potensial o fewn yr Eglwys. Mae miloedd o'r rhain wedi eu dosbarthu trwy'r byd ac mae cannoedd wedi ymateb, yn arbennig felly, y lleygwyr, gan nodi eu bod am y tro cyntaf wedi adnabod eu dawn a'r modd i ddefnyddio eu dawn yng ngwaith Duw. Mae'n sicr fod miloedd o Gristnogion yn cyflawni gorchwylion nad yw natur na dawn ysbrydol wedi eu harfogi ar eu cyfer. O ganlyniad, maent yn brwydro drwy eu bywyd gydag ychydig iawn o effeithiolrwydd a llawer iawn o flinder. Mae'n bwysig darganfod beth yw bwriad Duw ar ein cyfer ni yn yr Eglwys. Beth sydd yn defnyddio ein potensial ni? Wrth ddarganfod hyn, fe fyddwn yn darganfod hefyd ein heffeithiolrwydd, ac ni fyddwn yn blino.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Rhuf.12:1–15; 1 Cor.12:12–31

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sawl swyddogaeth fedwrch chi eu canfod yn Rhufeiniaid 12 ac 1 Corinthiaid 12?
2. Beth yw eich rhan yn y nghorff Crist?

Gweddi

O Dad, cynorthwya dy bobl i beidio â throi yn eu hunfan, ond yn hytrach i feddiannu'r weinidogaeth yr wyt ti wedi ei fwriadu ar eu cyfer er mwyn cyflawni'r gwaith sydd gen ti ar eu cyfer yn y byd. Rwy'n gofyn hyn yn enw Iesu. Amen.